



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

## **Yr Adran Materion Gwledig**

Mae gwybodaeth am y cyhoeddiad hwn a chopïau pellach ar gael gan:

Y Tîm Lles Anifeiliaid Fferm  
Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol  
Llywodraeth Cynulliad Cymru

Adeiladau'r Llywodraeth  
Hill House  
Caerfyrddin  
SA31 3BS

Ffôn 01267 225300

E-bost: [livestockwelfare@wales.gsi.gov.uk](mailto:livestockwelfare@wales.gsi.gov.uk)

**LLES ANIFEILIAID WRTH EU CLUDO – NODIADAU  
CYFARWYDDYD**

**RHEOLIAD (EC) RHIF 1/2005 Y CYNGOR AR DDIOGELU ANIFEILIAID WRTH  
EU CLUDO A GWEITHREDIADAU CYSYLLTIEDIG A GORCHYMYN LLES  
ANIFEILIAID (CLUDO) (CYMRU) 2007**

**SAFLEOEDD RHEOLI**

**1 Beth yw safleoedd rheoli a beth yw eu pwrpas**

1.1 Pan fydd yr amser teithio mwyaf a ganiateir fel y'i nodir yn Atodiad 1, Pennod V o Reoliad (EC) Rhif 1/2005 y Cyngor ar gyfer gwartheg, defaid, geifr a cheffylau (heblaw am geffylau cofrestredig) wedi dod i ben, ond nad yw'r daith wedi ei chwblhau, rhaid i'r anifeiliaid gael eu dadlwytho, a chael bwyd, dŵr a gorffwys am yr amser a nodir ym Mhennod V, 1.5 neu 1.7(b) o'r Rheoliad. Fodd bynnag, gellir rhoi seibiant i'r anifeiliaid mewn safleoedd rheoli os nad yw cyfanswm yr amser teithio wedi dod i ben. Ar gyfer cludo ar ffordd, y cyfnod gorffwys lleiaf yw 24 awr. O dan yr amgylchiadau prin iawn lle nodir bod angen gorffwys wrth gludo ar fôr ym mhorthladd y cyrchfan, a phan na fydd yr anifeiliaid yn cael eu dadlwytho o gerbydau ffordd (fferïau gyrru mewn ac allan), y cyfnod gorffwys yw 12 awr. Rhaid i'r cyfnod gorffwys hwn, os oes angen cofnod taith, gael ei gymryd mewn safleoedd a gymeradwywyd fel safleoedd rheoli. Rhaid i'r rhain fodloni gofynion penodol Rheoliad (EC) Rhif 1255/97 y Cyngor, fel y'i diwygiwyd gan Erthygl 36 o Reoliad (EC) Rhif 1/2005 y Cyngor.

1.2 Rhaid i safleoedd rheoli:

(a) Fod mewn ardaloedd heb unrhyw waharddiadau neu gyfyngiadau yn unol â deddfwriaeth berthnasol y Gymuned;

(b) Bod dan reolaeth milfeddyg swyddogol a fydd yn sicrhau cydymffurfiaeth â darpariaethau'r Rheoliad;

(c) Gweithredu'n unol â holl reolau perthnasol y Gymuned sy'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid, symud anifeiliaid a diogelu anifeiliaid adeg eu lladd;

(d) Cael eu harolygu'n rheolaidd o leiaf ddwywaith y flwyddyn er mwyn sicrhau bod y gofynion cymeradwo'n parhau i gael eu bodloni.

1.3 Pennir meini prawf manwl a hunanesboniadol ar fesurau iechyd a hylendid, adeiladu a chyfleusterau, a gweithredu hefyd. Mae'r rhain wedi'u hatgynhyrchu yn Atodiad y canllaw hwn.

## **2 Sut mae cael cymeradwyaeth i safleoedd fod yn safleoedd rheoli?**

2.1 Dylai gweithredwyr safleoedd rheoli posibl ofyn am gymeradwyaeth gan eu Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol (DVM) lleol a fydd yn trefnu archwiliad o'r safle gan Swyddog Milfeddygol (VO) o fewn 10 diwrnod o dderbyn y cais i ystyried cymeradwyaeth, ar ffurf y ffurflen gais ac adrodd gyfunol.

2.2 Gweithredwr y safle rheoli fydd yn gyfrifol am benodi Archwilwyr Milfeddygol Lleol (LVIs) ar gyfer gofynion y safle rheoli o ddydd i ddydd a'r costau cysylltiedig. Os credir bod y safle'n foddhaol, dylid hysbysu gweithredwr y safle rheoli'n ysgrifenedig o fewn 5 diwrnod i'r archwiliad. Dim ond am flwyddyn yn unig fydd y gymeradwyaeth yn ddilys a bydd yn cynnwys rhif unigryw. Bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn cael ei hysbysu am y gymeradwyaeth a bydd yn rhyddhau'r manylion cyswllt i bob aelod-wladwriaeth.

2.3 Bydd ymweliadau blynyddol yn cael eu gwneud er mwyn ail-gymeradwyo'r safleoedd fel safleoedd rheoli. Os na chydymffurfir â'r meini prawf a'r darpariaethau perthnasol eraill yn y Rheoliad, gallai'r gymeradwyaeth gael ei hatal neu ei thynnu'n ôl.

2.4 Pan geir cymeradwyaeth, rhaid hysbysu'r Adran Amaethyddol briodol am unrhyw newidiadau i strwythur neu drefn weithredol y safle, gan gynnwys os yw'r LVI a benodwyd yn newid.

## **3 Gofynion safleoedd i gael eu cymeradwyo fel safleoedd rheoli**

3.1 Mae'r Rheoliad yn nodi bod rhaid i'r safleoedd rheoli gael eu defnyddio'n unswydd i dderbyn anifeiliaid sy'n pasio heibio a rhoi bwyd, dŵr, gorffwys, llety a gofal iddynt cyn eu bod yn parhau â'u taith.

3.2 Gall canolfannau cynnull cymeradwy cyfredol gael eu cymeradwyo fel safleoedd rheoli, ar yr amod:

(a) Eu bod yn bodloni gofynion perthnasol Cyfarwyddeb 64/432/EEC a gofynion Rheoliadau 1/2005 ac 1255/97

(b) Bod cyfleusterau o'r fath yn cael eu defnyddio'n unswydd fel safleoedd rheoli; ac

(c) Nad ydynt yn cael eu defnyddio i brynu neu werthu anifeiliaid sydd wedi'u cynnwys yn Rheoliad y Cyngor.

3.3 Mae'r meini prawf manwl wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 o Reoliad 1255/97 fel y'u diwygiwyd gan Reoliad 1/2005, ond maent wedi cael eu hatgynhyrchu yn Atodiad y canllaw hwn. Ni allwn newid gofynion y Rheoliad sy'n uniongyrchol berthnasol i'r holl aelod-wladwriaethau.

**MEINI PRAWF AR GYFER CYMERADWYO A GWEITHREDU SAFLEOEDD RHEOLI YN UNOL Â RHEOLIAD (EC) RHIF 1255/97 Y CYNGOR FEL Y'U DIWYGIWYD GAN REOLIAD (EC) RHIF 1/2005 Y CYNGOR**

(Nid yw'r testun sydd mewn (*llythrennau italig*) wedi ei gynnwys yn y Rheoliad, ond fe'i dangosir at ddibenion esbonio)

**A Mesurau Iechyd a Hylendid**

1. Rhaid i bob safle rheoli:

(a) Gael ei leoli, ei gynllunio, ei adeiladu a'i weithredu mewn modd sy'n sicrhau bioddiogelwch digonol er mwyn atal clefydau heintus difrifol rhag lledaenu i safleoedd eraill a rhwng llwythi dilynol o anifeiliaid sy'n pasio drwy'r safle hwn;

(b) Cael ei adeiladu a'i weithredu a chynnwys cyfarpar sy'n sicrhau bod gweithdrefnau glanhau a diheintio'n cael eu cyflawni. Bydd man golchi lorïau'n cael ei ddarparu ar y safle. Rhaid i gyfleusterau o'r fath fod yn weithredol ym mhob tywydd;

(c) Cael ei lanhau a'i ddiheintio cyn ac ar ôl iddo gael ei ddefnyddio, fel sy'n ofynnol gan y milfeddyg swyddogol.

2. Bydd rhaid i unrhyw bersonél a chyfarpar sy'n dod i gysylltiad â'r anifeiliaid sy'n aros yn y safle fod yn weithredol yn y safle arbennig hwnnw yn unig, oni bai bod gweithdrefnau glanhau a diheintio wedi'u cwblhau ar ôl bod mewn cysylltiad â'r anifeiliaid neu eu tail neu wrin. Yn arbennig, bydd y sawl sy'n gyfrifol am y safle rheoli'n darparu cyfarpar glân a dillad diogelwch, a fydd yn cael eu defnyddio gan unigolion sy'n dod mewn i'r safle rheoli'n unig, a bydd yn sicrhau bod cyfarpar addas ar gael i lanhau a diheintio'r eitemau uchod.

3. Bydd sarn yn cael ei glirio pan fydd llwyth o anifeiliaid yn cael eu symud o'r lloc ac, ar ôl cwblhau'r gweithrediadau glanhau a diheintio y darparwyd ar eu cyfer ym mhwynt 1 (c), bydd sarn ffres yn cael ei roi ar lawr.

4. Ni fydd sbwriel, tail nac wrin anifeiliaid yn cael eu casglu o'r safle oni bai eu bod wedi cael y driniaeth briodol a fydd yn atal lledaeniad clefydau anifeiliaid.

5. Dylid parchu seibiannau glanweithiol priodol rhwng dau lwyth dilynol o anifeiliaid ac, os yw'n briodol, dylid eu haddasu yn dibynnu ar a ydynt yn dod o

ardal, parth neu adrannau tebyg. Yn arbennig, ni chaniateir unrhyw anifeiliaid ar safleoedd rheoli am gyfnod o 24 awr o leiaf wedi iddo gael ei ddefnyddio am yr uchafswm o 6 diwrnod (*h.y. rhaid cael seibiant o 24 awr bob wythnos*) ac ar ôl cwblhau gweithrediadau glanhau a diheintio, a chyn i unrhyw lwyth newydd gyrraedd.

6. Cyn derbyn anifeiliaid, bydd y safleoedd rheoli wedi:

(a) Dechrau'r gweithrediadau glanhau a diheintio o fewn 24 awr i ymadawiad yr holl anifeiliaid a gadwyd yno'n flaenorol, yn unol â darpariaethau Erthygl 4 (3) o Reoliad 1255/97.

(b) Bod yn rhydd o anifeiliaid tan fydd y gweithrediadau glanhau a diheintio wedi'u cwblhau i safon sydd wrth fodd y milfeddyg swyddogol.

## **B Adeiladu a Chyfleusterau**

1. Yn ogystal â darpariaethau Penodau II a III yn Atodiad I o Reoliad 1/2005 sy'n ymwneud â'r dull cludo ar gyfer llwytho a dadlwytho anifeiliaid, rhaid i bob safle rheoli fod â chyfarpar a chyfleusterau addas at y diben o lwytho a dadlwytho anifeiliaid o'r dull cludo hwnnw. Yn arbennig, rhaid i unrhyw gyfarpar a chyfleusterau o'r fath gael gorchudd llawr gwrth-lithro ac, os oes angen, rhaid cael diogelwch ar yr ochrau. Rhaid i bontydd, rampiau ac eiliau gael ochrau, rheiliau neu ryw fesur diogelu arall er mwyn atal anifeiliaid rhag syrthio oddi arnynt. Dylai rampiau llwytho a dadlwytho fod ar y goledd lleiaf posibl. Rhaid i dramwyfeydd fod â gorchuddion llawr sy'n lleihau'r perygl o lithro a rhaid iddynt fod wedi'u hadeiladu mewn modd sy'n lleihau'r risg o anafu anifeiliaid. Rhaid cymryd gofal arbennig i sicrhau nad oes yna unrhyw fwlch neu ris sylweddol rhwng llawr y cerbyd a'r ramp neu rhwng y ramp a llawr y man dadlwytho a fydd yn peri i'r anifeiliaid orfod neidio neu sy'n debygol o achosi iddynt lithro neu faglu.

2. Bydd gan bob cyfleuster a ddefnyddir i gadw anifeiliaid mewn safleoedd rheoli:

(a) Orchuddion llawr sy'n lleihau'r risg o lithro ac nad ydynt yn achosi anafiadau i anifeiliaid;

(b) Toeon a diogelwch digonol ar yr ochrau i ddiogelu'r anifeiliaid rhag tywydd gwael;

(c) Cyfleusterau addas ar gyfer dal ac arolygu anifeiliaid, a'u harchwilio lle y bo angen, rhoi bwyd a dŵr iddynt a storio bwyd anifeiliaid;

(d) Gan ystyried maint y lle, awyru a draenio digonol ar gyfer y rhywogaeth o anifail a gedwir yno;

(e) Goleuadau naturiol neu artiffisial ar lefel sy'n ddigonol i alluogi i'r holl anifeiliaid gael eu harolygu ar unrhyw adeg. Os oes angen, dylid cael goleuadau wrth gefn;

(f) Offer i glymu anifeiliaid sydd angen cael eu clymu. Ni fydd y modd o glymu'n achosi poen na dioddefaint i'r anifeiliaid nac yn eu rhwystro rhag bwyta, yfed neu orwedd yn hwylus;

(g) Digon o le, mewn perthynas â'r rhywogaeth o anifail dan sylw, i'r anifeiliaid allu gorwedd ar yr un pryd a symud yn hawdd i'w manau yfed a bwyta;

(h) Cyflenwad digonol o sarn. Bydd sarn yn cael ei roi ym mhob lloc yn unol ag anghenion y rhywogaeth neu'r categori o anifail sy'n defnyddio'r safle; a bydd

(i) Wedi ei adeiladu a'i gynnal a'i gadw mewn ffordd a fydd yn rhwystro'r anifeiliaid rhag dod i gysylltiad â gwrthrychau miniog neu beryglus neu arwynebau sydd wedi'u difrodi a allai achosi anaf iddynt.

3. Bydd gan safleoedd rheoli gyfleusterau addas ar gyfer cadw anifeiliaid sydd â heintiau, anafiadau neu'r rheini sydd angen sylw unigol ar wahân.

4. Dylai fod gan safleoedd rheoli gyfleusterau addas ar gyfer pob unigolyn sy'n cynnal busnes ar y safle neu sy'n ei ddefnyddio.

5. Bydd gan safleoedd rheoli drefniadau priodol ar gyfer storio a chael gwared â deunydd gwastraff ac ar gyfer storio anifeiliaid sydd wedi marw, cyn iddynt gael eu symud a'u dinistrio yn unol â Chyfarwyddeb 90/667/EEC.<sup>1</sup>

## **C Gweithrediadau**

1. Dylai anifeiliaid gael eu dadlwytho'n syth ar ôl cyrraedd. Fodd bynnag, os na ellir osgoi oedi cyn gwneud hyn, gan ystyried y tywydd a'r cyfnodau aros, dylid sicrhau'r amodau lles gorau posibl i'r anifeiliaid.

2. Wrth lwytho a dadlwytho, dylid gofalu nad yw'r anifeiliaid yn cael eu dychryn, eu cyffroi na'u cam-drin, a dylid sicrhau nad ydynt yn cael eu taro i'r llawr. Ni ddylid codi na llusgo'r anifeiliaid wrth eu pennau, cynnau, clustiau, traed, cynffonau na'u gwllân, na'u trin mewn modd a fyddai'n achosi poen neu ddiodeffaint diangen iddynt. Pan fydd angen, rhaid iddynt gael eu tywys yn unigol.

3. Er mwyn symud anifeiliaid o amgylch y cyfleusterau:

(a) Rhaid i dramwyfeydd symudol gael eu trefnu mewn modd sy'n manteisio i'r eithaf ar dueddiadau anifeiliaid i heidio at ei gilydd;

(b) Ni ddylai offer a fwriedir ar gyfer tywys anifeiliaid gael eu defnyddio at unrhyw bwrpas arall. Dylid osgoi defnyddio offer sy'n rhoi sioc drydan cyn belled â phosibl ac, mewn unrhyw achos, dim ond ar wartheg neu foch yn eu llawn dwf sy'n gwrthod symud y gellir eu defnyddio, ar yr amod nad yw'r siociau'n para mwy na dau eiliad, bod saib digonol rhwng siociau a bod gan yr anifeiliaid le o'u blaenau i symud. Dim ond i gyhyrau rhan-ôl yr anifeiliaid y dylid rhoi sioc;

(c) Ni ddylid taro'r anifeiliaid, na gwasgu unrhyw ran o'u cyrff sy'n arbennig o dyner. Yn arbennig, ni ddylid gwasgu, troi na thorri cynffonau'r anifeiliaid ac ni ddylid cydio yn eu llygaid. Ni ddylid pwnio na chicio'r anifeiliaid;

(d) Ni ddylai'r bobl sy'n trafod yr anifeiliaid yn y safle rheoli feddu ar na defnyddio procwyr nac unrhyw offeryn arall â blaen. Gellir defnyddio ffyn neu offer arall a fwriedir ar gyfer tywys anifeiliaid ar yr amod y gellir eu defnyddio ar gorff anifail heb achosi anaf na dioddefaint diangen iddo.

4. Rhaid i anifeiliaid sy'n cyrraedd ar ôl goddef tymereddau uchel mewn tywydd clòs gael eu hoeri mewn modd priodol cyn gynted â phosibl.

5. Dylid darparu bwyd a dŵr i anifeiliaid mewn modd sy'n sicrhau bod pob anifail yn y safle rheoli'n cael o leiaf ddigon o ddŵr glân a bwyd priodol i ddiwallu anghenion ei gorff yn ystod ei arhosiad a hyd disgwylidig y daith i'r safle bwydo nesaf. Efallai na fydd safleoedd rheoli'n derbyn anifeiliaid ag anghenion bwydo arbennig, fel lloi ifanc sydd angen bwyd hylifol, oni bai bod ganddynt yr offer a'r staff i ddiwallu'r anghenion hynny.

6. Bydd cyflwr ac iechyd yr anifeiliaid yn cael eu harchwilio gan aelod o staff y safle rheoli pan fyddant yn cyrraedd y safle rheoli ac o leiaf unwaith pob 12 awr yn ystod eu hamser yn y safle rheoli.

7. Bydd y cofnod y cyfeirir ato yn Erthygl 5 (h) o Reoliad 1255/97 yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

(a) Dyddiad ac amser cwblhau'r dadlwytho a chychwyn ail-lwytho pob llwyth;

(b) Y dyddiad y mae'r safle'n wag ac am ba hyd am y rhesymau iechyd y darperir ar eu cyfer ym mhwynt A (4) o'r Atodiad hwn;

(c) Rhif(au) tystysgrif iechyd anifeiliaid ar gyfer pob llwyth (*rhif, rhywogaeth, rhif tystysgrif iechyd, y sawl sy'n anfon yr anifeiliaid, y sawl sy'n derbyn yr anifeiliaid a'r cludwr*);

(d) Unrhyw sylwadau angenrheidiol sy'n ymwneud â chyflwr iechyd neu les yr anifeiliaid (*gan gynnwys anifeiliaid sâl/blinedig a'r anifeiliaid hynny sydd angen eu cadw ar wahân neu sydd angen triniaeth*) ac yn arbennig:

- manylion a rhifau'r anifeiliaid sy'n cael eu canfod yn farw wrth ddadlwytho yn y safle rheoli neu'r rheini sy'n marw yn ystod eu harhosiad;

- manylion a rhifau'r anifeiliaid y gwelir eu bod wedi'u hanafu'n ddifrifol pan fyddant yn cael eu dadlwytho neu yn ystod eu harhosiad, neu'r rheini yr ystyrir nad ydynt yn ffit i deithio.

(e) Enwau a chyfeiriadau'r cludwr a'r gywyr a rhifau cofrestru'r cerbydau.